npower in the community

View of Pembroke Power Station

Pembroke Power Station

Contents

01 Power station update
02 Meet the buyer event
03 Meet the administration team
04 Community update

Pembroke Power Station takes shape

As 2011 begins, the new Pembroke Power Station is really taking shape.

All five turbine halls have been constructed and the generators, gas turbines and steam turbines for each unit are already in position. The main transformers for four of the units are in place and electrical testing has started on the first two units.

The steel frames for the five Heat Recovery Steam Generators, or boilers, have been constructed, and the erection of the water treatment plant is nearing completion. The administration building and workshops, where the power station's operational team will work, have been built and the internal fitting out has started.

By October, the workforce on site had reached approximately 1,500 and around 2.3 million man hours had been worked.

Over the next twelve months the various sections of the power station will enter the commissioning phase – a vital step in ensuring that all the necessary components of the station work correctly. We will provide more details about the commissioning phase in due course.

Environmental permit application update

The Environment Agency is continuing with the detailed assessment of our application for an Environmental Permit for the operational phase of Pembroke Power Station.

Whilst the public consultation period is now complete, the assessment involves detailed consultation with other official bodies and overall is likely to take over twelve months to complete.

We welcomed the Welsh Assembly Government's recent decision not to call-in our application for an Environmental Permit. This will allow the Environment Agency, in consultation with other bodies, to reach its conclusions on our application in the usual way.

The Energy Minister at the Department of Energy and Climate Change granted planning consent for the construction of Pembroke Power Station in February 2009 after a thorough and robust consultation process, which included consultation with the Environment Agency regarding operational aspects of the project.

We are continuing to work closely with the Environment Agency to ensure they have the information they need in order to make their decision.

Meet the buyer event

Pembroke Power Station is not only bringing important employment opportunities to the local area, once operational, it will also require the products and services of a variety of different contractors.

To ensure that local companies understand these requirements and have an opportunity to tender for this work, we held a 'Meet the Buyer' event at the end of November.

Organised by Milford Haven based *encompass Consulting*, over one hundred companies from across South Wales were invited to attend the event, having first completed a questionnaire to assess their skills, services and experience. The companies represented a wide spectrum of products and services reflecting the power station's operational supply chain needs.

At the event, members of the Pembroke Power Station operational team provided information about their requirements and discussed the opportunities available in detail with the attendees.

Community Funding Update

Through our Community Fund, we aim to provide support for local groups and events that bring a benefit to the community. Recently, we've been pleased to support the following groups:

- Pembroke Dock Cricket Club
- Hundleton Luncheon Club
- The Sea Cadets
- Monkton Swifts Football Club
- Plant Dewi

If you think your company could be a possible supplier to the project, please contact *encompass*:

encompass Consulting
Havens Head Business Park
Milford Haven SA73 3LD

Tel: 01646 696644
email: enquiries@encompassconsulting.co.uk

Recruitment update

Over the last year, the Pembroke Power Station management team have been busy recruiting the new team that will run the station once it becomes fully operational towards the end of 2012.

As a result of their hard work, the full power station team will be in place by early January 2011.

Training and skills development is vital when working on a technically complex power station like Pembroke, so one of the first roles to be filled was the Learning and Development (L&D) Advisor who will be responsible for making sure that L&D becomes embedded in the new team right from the start.

Kevin McCullough with members of the Pembroke team

In line with this learning ethos, the new operations team members are staying in close contact with colleagues at our new gas-fired power station at Staythorpe in Nottinghamshire. Part of the training programme for the new team at Pembroke includes spending time at Staythorpe, to get a real insight into the day to day operation of a state-of-the-art gas-fired power station.

Kevin McCullough, RWE npower's Chief Technical Officer recently visited Pembroke to meet members of the operational team. He reiterated the importance of the new power station to RWE npower and took part in a 'question and answer' session with the team.

Meet the team

Mair Lewis, Llywela Edwards, Laura Kilcoyne, Chedes Sarrionandia

Our Pembroke Power Station Administration Team plays a vital role, supporting the wider team to ensure the day to day running of the site office is managed smoothly and efficiently.

Mair Lewis: Business Support Team Leader
Mair started working at Pembroke just over a year ago and has recently moved into her new role of Business Support Team Leader. As well as managing the site's administrative team, Mair is responsible for the facilities management, which includes things like the offices, security and landscaping.

Mair grew up in Narberth and now lives in Neyland.

Llywela Edwards: Site Administrator
Llywela, better known as Wella, combines her role as site administrator with being the site IT co-ordinator and document controller.

As Site Administrator, Wella is responsible for managing the smooth running of the office and overseeing the administration team. Amongst other things, Wella also manages all correspondence to and from the main contractor, Alstom, and is involved with the co-ordination of risk assessments and method statements for the Health & Safety department.

Pembrokeshire born and bred, Wella lives in Carew, the village she grew up in.

Laura Kilcoyne: Receptionist
Laura joined the Pembroke team a year ago and, as receptionist, is the first point of contact for visitors to the RWE npower site office. As well as general reception duties, Laura is responsible for co-ordinating off-site events, looks after the supplies of PPE (Personal Protective Equipment) and oversees the catering and kitchen supplies.

A resident of Pembroke Dock, Laura previously worked at the Cleddau Bridge Hotel.

Chedes Sarrionandia: Administrator
The newest member of the administration team, Chedes joined RWE npower during August. As administrator, Chedes' role encompasses a variety of things including invoice processing, co-ordinating the team's expenses, managing the office supplies and co-ordinating any new starters joining RWE npower.

Originally from Tenby, Chedes now lives in Pembroke Dock.

Chedes, Laura, Wella and Mair

Local Liaison Committee update

The latest Local Liaison Committee meeting was held in October and, as ever, provided a great opportunity for us to update the local community representatives on the progress of the power station and to listen to and discuss any issues of local concern.

The meeting was attended by local community representatives including County and Community Councillors and members of the RWE npower and Alstom project teams.

The key points raised and discussed at the meeting included:

- an update on the progress of the power station's construction presented by Rob Jordan, Alstom's Site Manager
- a review of the numbers of construction workers on site and the proportion of workers from the local area
- an update on the recruitment of the power station's permanent operational team
- confirmation that Clive Smith, the current Power Station Manager, has been appointed to a new role within RWE npower overseeing a number of the company's power stations including Pembroke. A new station manager will be announced in early 2011
- a review of the delivery of heavy loads to the site and a discussion about the breakdown of one load that resulted in local traffic problems.

Climate Cops in Pembrokeshire

In September, the Climate Cops visited Pembrokeshire for the third year running. Pupils at five local schools participated in the Climate Cops Academy events, learning simple ways to become environmentally greener and to use energy efficiently. The schools involved were Hubberston VC School, Orielton Primary School, Cosheston Primary School, Monkton Priory Community Primary School and Milford Haven Junior School.

The npower Football League

If you are a football fan, you may well have noticed that npower is the new sponsor of the Football League.

The three year title sponsorship means the League's three divisions will be known as 'the npower Championship', 'npower League 1' and 'npower League 2'.

Any fans of Welsh teams Cardiff City and Swansea City should also look out for ticket giveaways and competitions in the local media.

An important part of npower's sponsorship is the company's commitment to community involvement in football and, in September, we launched the npower Kids Cup initiative. Designed to nurture a new generation of football stars and encourage healthy competition amongst kids, the Kids Cup consists of two six-a-side competitions for U11 schoolchildren and U13 girls.

Around 2,500 school children are expected to participate in the Kids Cup, formerly known as the Community Cup, and Girls Cup. The road to the finals started in September with each Football League club organising a competition for all local schools wishing to take part. The winners of those competitions then go on to represent the club in the regional, area and national phases of the Cup, where they will face schools representing other League clubs.

TV presenter Ben Shephard at the Kids Cup launch

Local school is npower Climate Cops Green SOS finalist

Students from Greenhill School, Tenby, have been selected as finalists in npower's Climate Cops SOS, an initiative designed to motivate the UK's greenest teens into turning their passion for the environment into a positive campaign for the local area.

A team of ten 11 to 14-year-olds from Greenhill School were chosen out of hundreds of entries from across the UK to participate in the programme thanks to their thoughtful and well-articulated entry, which aims to reduce the local carbon footprint through the introduction of a car-pooling scheme.

To kick-start the programme, the students recently took part in an exclusive workshop at London Zoo. Hosted by Xtra Factor presenter Konnie Huq, the workshop was designed to help springboard the youngsters' green ideas into real actions. In addition, the school – along with nine other finalist teams – will receive a starter fund of £1,000 from npower to help bring their project to life.

npower launched its search for the most passionate green teenagers back in April, when students were asked to identify an environmental issue which affects their community. Their training at London Zoo is just the first of many innovative sessions to help inspire and motivate the pupils as they venture forward with their green projects.

Greenhill pupils with RWE npower's CEO Volker Beckers and Konnie Huq

Contact us

Throughout the process of developing a new power station at our site near Pembroke, RWE npower is committed to keeping local people informed and taking their opinions into consideration.

If you have any questions, concerns or comments, or if there is anything else that you would like us to be aware of then please contact us.

Email: pembroke@rwenpower.com

www.rwenpower.com/pembroke

By post: Freepost RRKG-AZTG-JLJX,
Camargue (RWE npower),
Eagle Tower, Montpellier Drive,
Cheltenham, GL50 1TA

By phone: leave a message on the Pembroke information line on **0845 136 0102** and we will respond as quickly as possible.

npower yn y gymuned

Golygfa o Orsaf Bŵer Penfro

Pembroke Power Station

Contents

01 Hynt yr orsaf bŵer
02 Cyfle i gwrdd â'r prynwr
03 Dyma'r tîm gweinyddu
04 Newyddion cymunedol

Gorsaf Bŵer Penfro'n datblygu

A ninnau'n croesawu 2011, mae Gorsaf Bŵer Penfro yn dod ymlaen yn dda.

Mae'r pum neuadd dyrbin wedi'u hadeiladu ac mae generaduron, tyrbinau nwy a thyrbinau ager pob uned yn eu lle. Mae prif newidyddion pedair o'r unedau yn eu lle a dechreuwyd gwneud profion trydan ar y ddwy uned gyntaf.

Mae fframiau dur y pum Generadur Ager Adfer Gwres, neu foeler, wedi'u codi ac mae gwaith adeiladu'r uned trin dŵr bron wedi'i orffen. Adeiladwyd yr adeilad gweinyddu a'r gweithdai lle bydd tîm gweithredol yr Orsaf Bŵer yn gweithio a dechreuwyd gosod yr offer mewnol ynddynt.

Erbyn mis Hydref, roedd tua 1,500 o bobl yn gweithio ar y safle ac roedd tua 2.3 miliwn o oriau wedi'u gweithio.

Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn dechrau comisiynu gwahanol rannau o'r orsaf bŵer. Mae hyn yn gam hanfodol er mwyn sicrhau bod pob rhan o'r orsaf yn gweithio'n iawn. Byddwn yn rhoi rhagor o fanylion am y gwaith comisiynu maes o law.

Hynt y cais am Drwydded Amgylcheddol

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn dal wrthi'n cynnal asesiad manwl o'n cais am Drwydded Amgylcheddol ar gyfer cyfnod gweithredol Gorsaf Bŵer Penfro.

Er bod y cyfnod o ymgynghori â'r cyhoedd wedi dod i ben, mae'r asesiad yn cynnwys ymgynghori manwl â chyrff swyddogol eraill ac mae'r cyfan yn debygol o gymryd dros 12 mis i'w gwblhau.

Roeddem yn croesawu penderfyniad Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ddiweddar i beidio â galw ein cais am Drwydded Amgylcheddol i mewn. Bydd hyn yn rhoi cyfle i Asiantaeth yr Amgylchedd, mewn ymgynghoriad â chyrff eraill, gyrraedd ei chasgliadau am ein cais yn y ffordd arferol.

Rhoddodd y Gweinidog dros Ynni yn yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd ganiatâd cynllunio i adeiladu Gorsaf Bŵer Penfro ym mis Chwefror 2009 ar ôl prosies ymgynghori drwyadl ac effeithiol a oedd yn cynnwys ymgynghori ag Asiantaeth yr Amgylchedd ynghylch agweddau gweithredol ar y prosiect.

Rydym yn dal i gydweithio'n agos ag Asiantaeth yr Amgylchedd i sicrhau bod y wybodaeth angenrheidiol ganddynt er mwyn gwneud eu penderfyniad.

Cyfle i gwrdd â'r prynwr

Yn ogystal â dod â gwaith pwysig i'r ardal, bydd angen nwyddau a gwasanaethau gan nifer o wahanol gontractwyr ar Orsaf Bŵer Penfro pan fydd yn barod.

Er mwyn sicrhau bod cwmnïau lleol yn deall beth yw anghenion yr orsaf ac yn cael cyfle i dendro am y gwaith, cynhaliwyd 'Cyfle i Gwrdd â'r Prynwr' tua diwedd Tachwedd.

Trefnwyd yr achlysur gan encompass Consulting o Aberdaugleddau ac, ar ôl i nifer fawr o gwmnïau o bob rhan o dde Cymru lenwi holiadur i asesu eu sgiliau, eu gwasanaethau a'u profiad, gwahoddwyd dros gant ohonynt i gymryd rhan. Roedd y cwmnïau'n cynnig amrywiaeth eang o nwyddau a gwasanaethau fyddai'n diwallu anghenion yr Orsaf Bŵer.

Ar y diwrnod, roedd aelodau o dîm gweithredol Gorsaf Bŵer Penfro yn rhoi gwybodaeth i'r cwmnïau am eu gofynion ac yn trafod y cyfleoedd oedd ar gael.

Os credwch y gallai'ch cwmni chi gyflenwi nwyddau neu wasanaeth i'r prosiect, gallwch gysylltu ag encompass:

encompass Consulting
Havens Head Business Park
Aberdaugleddau/Milford Haven SA73 3LD

Ffôn: 01646 696644
ebost: enquiries@encompassconsulting.co.uk

Newyddion am y Gronfa Gymunedol

Trwy ein Cronfa Gymunedol, rydym yn ceisio helpu grwpiau a digwyddiadau lleol sy'n dod â manteision i'r gymuned. Yn ddiweddar, bu'n bleser gennym gefnogi'r grwpiau a ganlyn:

- Clwb Criced Doc Penfro
- Hundleton Luncheon Club
- Cadlanciau'r Môr
- Clwb Pêl-droed Monkton Swifts
- Plant Dewi

Newyddion recriwtiot

Dros y flwyddyn ddiwethaf, bu tîm rheoli Gorsaf Bŵer Penfro yn brysur yn recriwtio'r tîm newydd a fydd yn rhedeg yr orsaf pan fydd yn gweithredu'n llawn tua diwedd 2012.

O ganlyniad i'w gwaith caled nhw, bydd tîm cyfan yr Orsaf Bŵer wedi'i benodi erbyn dechrau Ionawr 2011.

Mae hyfforddi a datblygu sgiliau yn hanfodol wrth weithio ar orsaf bŵer soffistigedig fel un Penfro. Felly, un o'r swyddi cyntaf a lanwyd oedd y swydd y

Kevin McCullough gydag aelodau o dîm gorsaf bŵer Penfro

Cynghorydd Dysgu a Datblygu (L&D) a fydd yn gyfrifol am sicrhau bod dysgu a datblygu yn cael lle amlwg yn y tîm newydd o'r dechrau'n deg.

Un ffordd o ddysgu yw bod aelodau'r tîm gweithredu yn cadw mewn cysylltiad agos â thîm gorsaf ynni nwy newydd RWE npower yn Staythorpe, Swydd Nottingham. Fel rhan o'u rhaglen hyfforddi, mae tîm newydd gorsaf bŵer Penfro'n treulio amser yn Staythorpe er mwyn gweld drostyn nhw'u hunain sut y mae gorsaf bŵer nwy fodern yn gweithio o ddydd i ddydd.

Daeth Kevin McCullough, Prif Swyddog Technegol RWE npower, i Benfro yn ddiweddar i gwrdd ag aelodau'r tîm gweithredol. Dywedodd fod yr orsaf bŵer newydd yn bwysig iawn i RWE npower a chymerodd ran mewn sesiwn holi ac ateb gyda'r tîm.

Cwrdd â'r tîm

Mair Lewis, Llywela Edwards, Laura Kilcoyne, Chedes Sarrionandia

Mae gan Dîm Gweinyddol RWE npower ran bwysig i'w chwarae, yn cefnogi'r tîm ehangach er mwyn sicrhau bod swyddfa'r safle'n cael ei rhedeg yn effeithiol.

Mair Lewis: Arweinydd Tîm Cymorth Busnes
Dechreuodd Mair weithio yng ngorsaf bŵer Penfro ychydig dros flwyddyn yn ôl ac mae newydd gael swydd newydd yno – Arweinydd Tîm Cymorth Busnes. Yn ogystal â rheoli tîm gweinyddol y safle, Mair sy'n gyfrifol am reoli'r cyfleusterau, sy'n cynnwys pethau fel y swyddfeydd, diogelwch a thirlunio.

Cafodd Mair ei magu yn Arberth ac mae'n byw yn Neyland erbyn hyn.

Llywela Edwards: Gweinyddwr y Safle
Mae Llywela, neu Wella, yn cyfuno swydd gweinyddwr y safle â swydd cydgysylltydd technoleg gwybodaeth a rheolwr dogfennau'r safle. Mae swydd Gweinyddwr y Safle yn golygu sicrhau bod gwaith y swyddfa'n rhedeg yn esmwyth a goruchwylio'r tîm gweinyddol. Ymhlith pethau eraill, mae Llywela'n rheoli'r holl ohebiaeth gyda'r prif gontractor, Alstom, ac mae'n cydgysylltu asesiadau risg a datganiadau dull ar gyfer yr adran Iechyd a Diogelwch.

Mae Llywela'n dal i fyw ym mhentref Caeriw, Sir Benfro lle cafodd ei magu.

Laura Kilcoyne: Derbynnydd
Ymunodd Laura â thîm Penfro flwyddyn yn ôl. Hi sy'n cyfarch ymwelwyr â swyddfa safle RWE npower. Yn ogystal â thasgau cyffredinol y dderbynfa, mae Laura'n gyfrifol am gydgysylltu digwyddiadau oddi ar y safle, gofalu am y Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) a chyflenwadau'r gegin a'r gwaith arlwyo.

Yn Noc Penfro y mae Laura'n byw a bu'n gweithio yng Ngwesty Pont Cleddau cynt.

Chedes Sarrionandia: Gweinyddwr
Chedes yw aelod diweddaraf y tîm

Chedes, Laura, Wella a Mair

gweinyddol. Ymunodd ag RWE npower ym mis Awst. Mae ei swydd yn cynnwys pethau fel prosesu anfonebau, cydgysylltu treuliau'r tîm, rheoli'r nwyddau swyddfa a chydgysylltu pobl sy'n ymuno â thîm RWE o'r newydd.

O Ddinbych-y-pysgod y daw Chedes yn wreiddiol ac mae'n byw yn Noc Penfro.

Newyddion y Pwyllgor Cyswllt Lleol

Roedd cyfarfod y Pwyllgor Cyswllt Lleol ym mis Hydref yn gyfle ardderchog i sôn wrth gynrychiolwyr y gymuned leol am hynt y gwaith ar yr orsaf bŵer ac i drafod unrhyw faterion oedd yn peri pryder i'r bobl leol.

Daeth Cynghorwyr Cymuned, Cynghorwyr Sir a chynrychiolwyr o dimau RWE npower ac Alstom, ymhlith eraill, i'r cyfarfod. Dyma rai o'r prif bwytiau a godwyd yn y cyfarfod:

- soniodd Rob Jordan, Rheolwr y Safle ar ran Alstom, am hynt gwaith adeiladu'r orsaf bŵer
- soniwyd am nifer y gweithwyr adeiladu ar y safle a faint ohonynt oedd yn bobl leol;
- soniwyd am y gwaith o recriwtio tîm gweithredol parhaol yr orsaf bŵer;
- cafwyd cadarnhad bod Clive Smith, Rheolwr presennol yr Orsaf Bŵer, wedi'i benodi i swydd newydd gydag RWE npower yn goruchwylio nifer o orsafoedd pŵer y cwmni, yn cynnwys Penfro. Cyhoeddir tua dechrau 2011 pwy fydd rheolwr newydd yr orsaf;
- soniwyd am y gwaith o gludo llwythi trwm i'r safle ac am y tro y torrodd un llwyth gan achosi problemau traffig.

Heddlu Hinsawdd yn Sir Benfro

Ym mis Medi, daeth yr Heddlu Hinsawdd (Climate Cops) i Sir Benfro am y drydedd flwyddyn o'r bron. Bu disgyblion o bum ysgol leol yn cymryd rhan yn nigwyddiadau Academi'r Heddlu Hinsawdd, gan ddysgu ffyrdd syml o warchod yr amgylchedd a defnyddio ynni'n effeithlon. Y pum ysgol oedd Ysgol Hubberston, Ysgol Orielton, Ysgol Cosheston, Ysgol Gynradd Gymunedol Priordy Cil-maen ac Ysgol Aberdaugleddau.

Cynghrair Bêl-droed npower

Os ydych yn dilyn pêl-droed, efallai'ch bod wedi sylw mai npower yw noddwr newydd y Gynghrair Bêl-droed.

Am gyfnod o dair blynedd, bydd tair adran y Gynghrair yn cael eu galw'n 'Bencampwriaeth npower', 'Cynghrair npower 1' a 'Cynghrair npower 2'.

Os ydych yn dilyn timau Dinas Caerdydd neu Ddinas Abertawe, bydd cyfle i ennill tocynnau am ddim a gwobrau eraill. Cewch y manylion yn y cyfryngau lleol.

Un rhan bwysig o becyn nawdd npower yw ymrwymiad y cwmni i hybu pêl-droed cymunedol ac, ym mis Medi, fe wnaethon ni lansio menter Cwpan Plant npower. Y nod yw meithrin cenhedlaeth newydd o beldroedwyr ac annog cystadleuaeth iach rhwng plant gan gynnal dwy gystadleuaeth chwech-bob-ochr ar gyfer plant ysgol o dan 11 oed a merched o dan 13.

Mae disgwyl i tua 2,500 o blant ysgol gymryd rhan yn y Cwpan Plant, sef y Cwpan Cymunedol gynt, a'r Cwpan i Ferched. Cynhaliwyd y rowndiau cyntaf ym mis Medi pan drefnodd holl glybiau'r Gynghrair Bêl-droed gystadleuaeth ar gyfer ysgolion lleol oedd yn dymuno cymryd rhan. Bydd enillwyr y cystadlaethau hyn yn mynd ymlaen i gynrychioli'r clwb yn y rowndiau lleol, rhanbarthol a

Y cyflwynydd teledu Ben Shephard yn lansio'r Cwpan Plant

chenedlaethol lle byddant yn wynebu ysgolion sy'n cynrychiiol clybiau eraill y Gynghrair.

Ysgol leol yn cyrraedd rownd derfynol SOS Gwyrdd yr Heddlu Hinsawdd

Disgyblion Ysgol Greenhill gyda Prif Swyddog Gweithredol RWE npower Volker Beckers a Konnie Huq

Mae disgyblion o Ysgol Greenhill, Dinbych-y-pysgod, wedi cyrraedd rownd derfynol SOS yr Heddlu Hinsawdd. Trefnir y fenter gan npower i annog pobl ifanc i roi eu cariad at yr amgylchedd ar waith mewn ffordd a fydd yn gwneud lles i'w hardal.

Dewiswyd tîm o ddeg o ddisgyblion 11-14 oed o Ysgol Greenhil allan o gannoedd o ymgeiswyr o bob rhan o Brydain i gymryd rhan yn y rhaglen. Roeddent wedi paratoi cais ystyriol ac eglur yn nodi eu cynllun i leihau ôl troed carbon yr ardal trwy gyflwyno cynllun rhannu ceir.

I gychwyn y rhaglen, bu'r disgyblion yn cymryd rhan mewn gweithdy arbennig yn Sŵ Llundain. Bwriad y gweithdy yng nghwmni cyflwynydd Xtra Factor, Konnie Huq, oedd rhoi hwb i'r bobl ifanc i wireddu eu syniadau gwyrdd. Yn ogystal, bydd yr ysgol – a'r naw tîm arall sydd yn y rownd derfynol – yn cael cronfa o £1,000 gan npower i gychwyn eu prosiect.

Dechreuodd npower chwilio am y bobl ifanc sy'n fwyaf brwd dros yr amgylchedd ym mis Ebrill pan ofynnwyd i ysgolion nodi mater amgylcheddol sy'n effeithio ar eu cymuned. Y diwrnod hyfforddi yn Sŵ Llundain oedd y cyntaf o nifer o sesiynau arloesol a gynhelir i helpu i ysbrydoli ac ysgogi'r disgyblion wrth iddynt ddatblygu eu prosiectau gwyrdd.

Cysylltu â ni

Yn ystod y broses o ddatblygu gorsaf bŵer newydd ar ein safle ger Penfro, mae RWE npower wedi addo cadw mewn cysylltiad â phobl yr ardal a thalu sylw i'w barn.

Os oes gennych gwestiwn, pryder neu sylw, neu os credwch fod rhywbeth y dylem ei wybod, cofiwch gysylltu â ni.

Ebost: pembroke@rwenpower.com

www.rwenpower.com/pembroke

Trwy'r post: Freepost RRKG-AZTG-JLJX, Camargue (RWE npower), Eagle Tower, Montpellier Drive, Cheltenham, GL50 1TA

Dros y ffôn: gadewch neges ar linell wybodaeth Gorsaf Bŵer Penfro ar **0845 136 0102** ac fe wnawn ni ymateb cyn gynted ag y gallwn.